CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
7 Mawrth 2018, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, N Jones, A Mummery, S Hughes, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Davies, E Williams, A Evans, R Williams (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod 07.02.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng N Jones yn cynnig a Cyng A Mummery yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Canolfan Penmynydd** - Dywedodd y Cadeirydd bod Mrs Brenda Williams bron wedi gorffen y gwaith yn y Ganolfan. Mae'r ddau goleuadau bellach yn gweithio a mae spotlight wedi cael ei osod yn y cefn. Mae'r brydles yn barod i arwyddo ond bydd y Clerc yn gofyn am copi Cymraeg.
4.2	**Bws yn parcio wrth ymyl y Glyn** - Mae'r Cyngor Sir wedi delio â'r mater hwn.
4.3	**Torri coed o dan gwifrau trydan** - Mae'r Clerc wedi dweud wrth Scottish Power ble un union mae'r safle.
4.4	**Adolygu cyflog y Clerc** - symud ymlaen i'r agenda nesaf. Bydd y Clerc yn paratoi contract
4.5	**Seindorf leuenctid Beaumaris** - Cytunwyd i gynnig rhodd o £25.00
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C103X/VAR Cais o dan adran 73A i ddiwygio amod 07 (Cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatad cynllunio rhis 41C103J (newid defnyddyr adeilad allanol), addasu ac ehgangu, codi modurdy dwbl arwahan ynghyd a gosod system trin carthion) er mwyn diwygio cynlluniau a gymeradwywyd er mwyn addasu ac ehangu wedi i'r gwaith gychwyn ar y safle yn Ty Gwyn Uchaf, Penmynydd - dim sylwadau
5.2	41C50C Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir ar gyfer lleoli 5 o gytiau bugail gydag un cael ei ddefnyddio fel cyfleusterau cawod a thoiled ynghyd a gosod sustem trin carthffosiaeth prifat ar dir yn Pandy Bach, Penmynydd - dim sylwadau
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **04.04.18.**

7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Cyngor Ynys Môn Costau Etholiad 04.05.17 £135.00
7.2	Dwr Cymru £81.60
7.3	Southern Electric £28.83
7.4	Aelodaeth Unllais Cymru £70.00
7.5	Cais ariannol: Kidney Wales - dim cyfraniad
7.6	Canolfan Penmynydd £200.00
8	**MATERION ERAILL**
	Dim
9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
	Cwyn - Cyngor Sir wedi niweidio'r ffens rhwng 5 a 11 Bryn Ffynon, Star (cwyn gan Mrs C Parry rhif 11)
	Llofnod **Cadeirydd** **04.04.18.**